British Waterways
Dyfrffyrdd Prydain

# DYFRFFYRDD I GYMRU

## Y FFORDD YMLAEN



# DYFRFFYRDD I GYMRU

© Bartholomew Cyf. 2000 Atgynhyrchwyd trwy ganiatâd Harper Collins Publishers.

# RHAGAIR

Andrew Davies AC

Roedd ymgynghoriad Dyfrffyrdd i Gymru yn gam pwysig ymlaen wrth godi ymwybyddiaeth o'r manteision a'r cyfleoedd a gynigir gan ddyfrffyrdd Cymru ar gyfer gwell ansawdd bywyd, cynnydd amgylcheddol a datblygu economaidd. Bu'n fodd i ddwyn partneriaid o bob maes a sector yng Nghymru at ei gilydd i ystyried y ffordd ymlaen yn fwy manwl. Roedd yr ymateb i'r ymgynghoriad yn gadarnhaol ac yn galonogol.

Er nad yw'r cyfrifoldeb dros ein dyfrffyrdd wedi ei ddatganoli'n ffurfiol i Lywodraeth Cynulliad Cymru, maent yn asedau pwysig i ni yng Nghymru, ac yn berthnasol i lawer agwedd ar gylch gwaith y Cynulliad ac i bob math o gyrff yng Nghymru sy'n ymddiddori neu'n ymwneud â gofalu amdanynt a'u datblygu. Mae yma bartneriaethau effeithiol eisoes ar waith, yn cyflawni prosiectau adfer a gofal amgylcheddol arloesol sydd hefyd yn creu gweithgarwch economaidd newydd.

Hoffai Llywodraeth Cynulliad Cymru weld y cynnydd hwn yn parhau trwy gydweithio ac edrychaf ymlaen at weld Llywodraeth y Cynulliad yn cyfrannu at wireddu cynlluniau Ddyfrffyrdd Prydain a'u partneriaid i sicrhau datblygiadau yng Nghymru yn y dyfodol.

Daw manteision lu i Gymru yn sgîl y fenter hon ac rwyf yn ei chymeradwyo.

**Andrew Davies AC, Y Gweinidog dros Ddatblygu Economaidd a Thrafnidiaeth**

# RHAGAIR

Robin Evans

Mae Dyfrffyrdd Prydain yn un o nifer o sefydliadau sy'n gyfrifol am y dyfrffyrdd yng Nghymru. Roeddem ni felly wrth ein bodd pan gawsom ein hannog gan Sue Essex, AC (cyn-Weinidog dros yr Amgylchedd) i ddatblygu syniadau ar gyfer cynllun cyffredinol i wireddu gwir botensial y dyfrffyrdd o ran gwella ansawdd bywyd yng Nghymru.

Bu'r ymateb i'r broses ymgynghori 'Dyfrffyrdd i Gymru' ganwaith gwell na'r disgwyl, gan ddangos yn glir sut y gall pawb sy'n rhannu'r cyfrifoldeb am ddyfrffyrdd amrywiol a hollbwysig Cymru gydweithio. Mae'n amlwg fod Andrew Davies AC, y Gweinidog dros Ddatblygu Economaidd a Thrafnidiaeth, yr un mor frwd â'i ragflaenydd ynglŷn â'r manteision gwirioneddol y gall dyfrffyrdd eu cynnig i Gymru. Rydyn ni'n croesawu ei benderfyniad i greu gweithgor i fwrw ymlaen â chanfyddiadau'r broses ymgynghori. Mae Dyfrffyrdd Prydain bellach yn cydweithio â'r Cynulliad Cenedlaethol i sefydlu gweithgor.

Rydyn ni'n ddiolchgar am arweiniad yr holl unigolion a sefydliadau a ymatebodd i broses ymgynghori Dyfrffyrdd i Gymru. Edrychwn ymlaen at gael gweithio gyda nhw, y Cynulliad Cenedlaethol, ei asiantaethau a'n partneriaid, er mwyn paratoi cynllun sy'n cydblethu â pholisïau a strategaethau Cymru a fyddai'n rhoi budd cymdeithasol, economaidd, diwylliannol ac amgylcheddol arwyddocaol.

**Robin Evans, Prif Weithredwr, Dyfrffyrdd Prydain**

# GOROLWG

Mae ‘Dyfrffyrdd i Gymru’ yn cynnig gweledigaeth uchelgeisiol o weithio mewn partneriaeth fel bod dyfrfannau’r wlad yn rhan o’r broses barhaus o adfywio economi, amgylchedd a chymdeithas Cymru.

Rhan hanfodol o’r weledigaeth hon yw trin a thrafod gyda phartneriaid yn y sectorau cyhoeddus, gwirfoddol a masnachol, cefnogwyr eraill a chymunedau ehangach Cymru.

Y llynedd, cynhaliodd Dyfrffyrdd Prydain broses ymgynghori gynhwysfawr, ac mae’r holl ymatebion yn cael eu cyflwyno bellach fel sail ar gyfer cynnydd pellach.

Roedd yr ymgynghoriad yn mynd i’r afael â’r prif egwyddorion sydd wrth wraidd egwyddorion Dyfrffyrdd i Gymru:

- Sbarduno adfywiad economaidd;
- Gweithredu fel sbardun i adfer cefn gwlad;
- Datblygu ffordd gynaliadwy o fyw;
- Hyrwyddo treftadaeth ddiwylliannol ffyniannus Cymru;
- Hyrwyddo Cymru i bedwar ban byd.

Roedd dogfen ymgynghori ‘Dyfrffyrdd i Gymru’ o fudd i godi ymwybyddiaeth am y cyfleoedd a’r manteision sydd gan ddyfrffyrdd Cymru i’w cynnig. Fe ddefnyddiodd brofiad helaeth Dyfrffyrdd Prydain ar fater adfywio’r dyfrffyrdd, datblygu cynaliadwy a chadwraeth. Nod y prosiectau a nodwyd fel enghreifftiau yn nogfen Dyfrffyrdd i Gymru oedd adfywio’r dyfrffyrdd trwy eu hadfer a’u hadnewyddu. Mae gweithio mewn partneriaeth yn hanfodol i hyn oll, a bydd angen portffolio ariannu i gyflawni’r gwaith.

Prif nod y prosiectau cyfalaf mwyaf yw trawsnewid coridorau dyfrffyrdd mewnol Cymru yn effeithiol. Fel mentrau strategol, gallant ddarparu’r ‘más critigol’ gorau gan gynlluniau unigol lleol a rhanbarthol.

Fe ymatebodd 45 o gyrff a sefydliadau ledled y wlad i’r ddogfen, a llenwodd bron i 800 o’r cyhoedd holiadur i fynegi barn ar y mater.

Roedd y rhan fwyaf yn cymeradwyo’r prosiectau a nodwyd yn yr ddogfen ymgynghori, er bod galw hefyd am syniadau gwahanol ac arloesol ar gyfer prosiectau mewn dyfrffyrdd a dyfrfannau eraill, gan ehangu’r cynllun i bob cwr o’r wlad a hyd a lled datblygiadau’r dyfodol.

Yng ngoleuni’r ymatebion cadarnhaol a gafwyd i’r ddogfen ymgynghori, rydyn ni’n gobeithio bydd yr adroddiad hwn yn cynnal y diddordeb hwnnw ac yn sbarduno’r partneriaid i ddod ynghyd i ystyried y camau nesaf ac argymhellion yr ymatebion.

Er enghraifft, byddai un cynnig o’r fath, sef prosiect ar y cyd i sefydlu gwefan ‘Dyfrffyrdd i Gymru’ yn gyfrwng gwybodaeth am faterion hamdden a mynediad, adnoddau addysg a diwylliannol i’r cyhoedd yng Nghymru, ac yn fodd o farchnata’r dyfrffyrdd i dwristiaeth.

Trwy barhau i gydweithio, mae Dyfrffyrdd Prydain a’i bartneriaid yn gobeithio rhoi stamp Cymreig i’r gwaith o ddatblygu a chynnal dyfrffyrdd y wlad, gyda chefnogaeth y sectorau cyhoeddus, preifat, cymunedol a gwirfoddol.



Partneriaeth leol gref yw Partneriaeth Camlas Maldwyn, sy’n cynnwys Dyfrffyrdd Prydain, Ymddiriedolaeth Adfer Dyfrffyrdd Maldwyn, Cyngor Sir Powys, Cyngor Sir Amwythig, Cyngor Bwrdeistref Croesoswallt, Ymddiriedolaeth Bywyd Gwyllt Sir Amwythig, Ymddiriedolaeth Bywyd Gwyllt Sir Drefaldwyn, Cymdeithas Camlas Shropshire Union, English Heritage, Cadw, Cyngor Cefn Gwlad Cymru, English Nature, Cymdeithas Dyfrffyrdd Mewnol ac Asiantaeth yr Amgylchedd.

Mae dyfrffyrdd Cymru yn gynefin i rai o’r rhywogaethau prinnaf a warchodir yn y DU, gan gynnwys y llygoden ddŵr, llyriad nofiadwy a gwellt y gamlas.

Mae dwy ran o dair o boblogaeth Cymru yn byw o fewn deng milltir i ddyfrffyrdd. Mae ein camlesi a’n hafonydd yn cysylltu cymunedau gwledig a threfol, gan gynnig coridorau amgylcheddol pwysig a chyfleoedd ar gyfer hamdden a thwristiaeth.

# YMATEBION

Roedd 'Dyfrffyrdd i Gymru' yn cynnwys cyfres o gwestiynau a oedd yn mynd i'r afael â'r prif faterion, ac mae crynodeb ohonynt i'w cael yma. I gael cip ar yr ymatebion llawn mewn ffeil PDF, ewch i'n gwefan, sef www.britishwaterways.co.uk/cymru

**C: A yw'r dull strategol a amlinellir yn y ddogfen hon yn gywir? Yn arbennig, a yw'n cynnwys yr holl brosiectau cywir a beth yw'r amserlen fwyaf priodol i gyflawni'r prosiectau?**

A: Cafwyd croeso brwd i'r modd roedd y ddogfen ymgynghori yn pwysleisio gwerth y dyfrffyrdd yng Nghymru ynghyd â'u potensial, a'r modd roedd yn argymell cydgysylltu a blaenoriaethu'r gwaith o'u datblygu yn well mewn fframwaith sy'n cyd-fynd â dyheadau polisïau'r Cynulliad a'i gyrff.

**C: Sut ellid ehangu cwmpas y ddogfen? Er enghraifft, pa ddyfrffyrdd a dyfrfannau eraill ddylid eu cynnwys ynddi a pha gynlluniau neu brosiectau eraill ddylid eu cynnwys?**

A: Ni ddylid cyfyngu'r ddogfen at ddyfrffyrdd gwneuthuredig yn unig. Gallai gynnwys afonydd, llynnoedd a'r glannau hefyd. Mae'r holl gynigion amrywiol yn nodi potensial y weledigaeth hon, ynghyd â'r angen i wneud cryn waith datblygu i bennu ei hyd a'i lled.

**C: Sut ddylem ni flaenoriaethu camau gweithredu rhwng y themâu craidd sef adfywio economaidd, adfer cefn gwlad, byw cynaliadwy, bywiogrwydd diwylliannol, hyrwyddo Cymru i bedwar ban byd, a rhwng prosiectau?**

A: Roedd llawer yn rhoi'r un pwysigrwydd i bob thema; tra'r oedd rhai'n dweud y byddai amserlen y gwaith yn dibynnu ar faint o arian sydd ar gael. Dadleuodd eraill o blaid defnyddio dulliau rhatach i wella mynediad a hyrwyddo datblygiad cynaliadwy dyfrffyrdd Cymru. Dylai agweddau amgylcheddol, gan gynnwys bioamrywiaeth a manteision ehangach 'safon bywyd' fod yn amlwg yn y broses werthuso.

**C: A fyddai creu gweithgor yn cynnwys y prif awdurdodau mordwyo, Cyrff Cyhoeddus a Noddir gan y Cynulliad, awdurdodau lleol a chynrychiolwyr Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn creu'r synergedd sydd ei angen rhwng y weledigaeth hon a rhaglenni a chynlluniau eraill, ac yn ffordd effeithiol o gael y budd gorau o'n gwaith?**

A: Byddai meithrin cysylltiadau â strategaethau a rhaglenni polisi cyhoeddus sydd eisoes ar waith, yn lleol ac yn genedlaethol, o fudd i'r weledigaeth. Roedd nifer fawr o'r farn mai sefydlu gweithgor yw'r cam nesaf mwyaf buddiol er mwyn gwireddu'r freuddwyd.

Mae cynlluniau adfywio fel y marina arfaethedig yn y Crindai yn elfennau hanfodol ar gyfer mentrau eraill megis y cynllun i gychod ddefnyddio Camlas Mynwy ac Aberhonddu rhwng Aberhonddu a'r môr yng Nghasnewydd. Byddai hyn yn cynyddu apêl y gamlas yn fwy fyth yn ogystal â rhoi cyfle i fynd a dod i ddyfrffyrdd eraill, gan agor marchnadoedd newydd i'r diwydiant twristiaeth.

Mae Dyfrffyrdd Prydain Cymru a'r Gororau wedi ymrwymo i gynnal, gwella ac adfer 75 milltir o ddyfrffyrdd yng Nghymru. Dros y degawd diwethaf, mae Dyfrffyrdd Prydain wedi buddsoddi tua £30m i adfer a chynnal y dyfrffyrdd hyn.

# Y FFORDD YMLAEN

Sefydlu gweithgor i:

- Gynnig cipolwg strategol i nodi a blaenoriaethu prosiectau, datblygu partneriaethau a dangosyddion cynnydd. Rhagwelir y bydd aelodau'r gweithgor yn gweithio ar eu strategaethau a phrosiectau eu hunain yn bennaf, ond y bydd mentrau a chyfleoedd cydweithio newydd hefyd yn cael eu creu
- Meithrin cysylltiadau â phartneriaethau prosiect neu ranbarthol a fydd yn canolbwyntio ar gyflwyno prosiectau a hysbysu'r gweithgor cenedlaethol amdanynt. Efallai bydd partneriaethau newydd yn deillio o'r gweithgor
- Ystyried sut gall cynlluniau prosiect ennill y cyfuniad mwyaf addas o ran cael arian ac adnoddau o fewn y strwythurau partneriaeth, gan gydnabod beth yw cyfraniad unigryw posib pob sefydliad partner
- Gofalu fod y sector gwirfoddol yn rhan o'r gweithgor ar lefel genedlaethol, a bod y gweithgor a phartneriaethau lleol yn sicrhau fod y gymuned yn rhan o'r gwaith o sbarduno a datblygu cynigion a phrosiectau lleol
- Mynd i'r afael â materion perthnasol eraill fel problemau strategol o sicrhau cyllid; datrys materion lle mae gwrthdaro rhwng buddiannau; meincnodau a dulliau o fesur effeithiau economaidd, amgylcheddol ac ansawdd bywyd; datrys rhwystrau o ran gwaith adfer mordwyo neu ddatblygu marina;



Gall dyfrffyrdd Cymru fod ymhlith asedau twristiaeth werdd a diwylliannol gorau ein gwlad, gyda'r gallu i ddiogelu cynefinoedd tra'n creu gweithgarwch ac incwm gydol y flwyddyn mewn sector sy'n mynd o nerth i nerth.

# CRYNODEB

Roedd ymgynghoriad 'Dyfrffyrdd i Gymru' yn gychwyn proses o roi stamp Cymreig ar fater datblygu dyfrffyrdd y wlad mewn modd cynaliadwy. Wrth fynd rhagddi, bydd y broses hon yn cadw'r polisïau a'r strategaethau presennol mewn cof, ac yn ceisio rhoi sylw cliriach i'r hyn sy'n cael ei wneud, yr hyn sydd angen ei wneud, a'r hyn y gellir ei wneud.

Bydd y gweithgor arfaethedig yn cynnig gorolwg cyd-drefnus i'r amrywiol gyrff, sefydliadau a chymunedau sydd â diddordeb yn ein dyfrffyrdd, gyda'r nod o weithio'n strategol i gyflwyno a chreu cyfleoedd newydd, a datrys materion.

Gallai'i gynnyrch gynnwys cyflwyno adroddiadau i'r Gweinidog dros Ddatblygu Economaidd; sefydlu prosiectau partneriaeth newydd a threfniadau cydweithio neu gydgyllido newydd; gwaith ymchwil ac ymgynghori; meithrin cysylltiadau â grwpiau cymuned, partneriaethau prosiect, cyrff yn y sectorau a chyrff eraill sydd â diddordeb yn y maes.

Gall y canlyniadau gynnwys sicrhau a defnyddio cyllid buddsoddi 'yn fwy effeithiol, cyflawni rhagor o waith, sicrhau gwaith o well safon (gan gynnwys cynaladwyedd, cynnwys y gymuned leol, hygyrchedd) a llwyddo i gyflawni mesurau a thargedau (cynnydd mewn bioamrywiaeth, twf mewn twristiaeth, cynhyrchu incwm, denu'r cyhoedd i gymryd rhan, adfer mordwyo).

© Bwrdd Croeso

Mae cyrff cyhoeddus yng Nghymru a Llywodraeth Cynulliad Cymru yn rhannu gweledigaeth o sicrhau gwell ansawdd bywyd trwy ddatblygu cynaliadwy. Mae hyn yn golygu gwarchod asedau o bwys rhyngwladol megis dyfrffyrdd Cymru ar gyfer y dyfodol.

O fuddsoddi'n ddoeth, gallwn wella amgylcheddau gwledig a threfol, creu rhagor o gyfleoedd hamdden iach, denu rhagor o dwristiaeth a chreu twf economaidd.